

# Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Data

Cefnogi gwelliannau gwasanaeth a arweinir gan ddata ac arloesedd

# Gwybodaeth am y Ddogfen

**Polisi:** Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Data

**Perchennog:** Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth

**Cyswllt a Enwebwyd:** Zoe Robinson (zoe.robinson@flintshire.gov.uk)

**Dyddiad yr Adolygiad Diwethaf:** 31/05/2024

**Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:** 31/03/2025

## Dogfennau Perthnasol

Ddigidol Sir y Fflint <https://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Council-and-Democracy/Digital-Strategy.aspx>

Strategaeth Ddigidol Sir y Fflint <https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Council-Democracy/Digital-Strategy/Digital-Flintshire-2021-EN.pdf>

Sir y Fflint Canolbwynt Digidol <https://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Digital-Flintshire/Homepage.aspx>

Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Data <https://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Council-and-Democracy/Information-and-Data-Management-Strategy/Home.aspx>

Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth <https://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Data-Protection-and-Freedom-of-Information/Home.aspx>

Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru <https://www.newa.wales>

## HANES ADOLYGU

Fersiwn	Dyddiad Cyhoeddi	Awdur	Crynodeb o'r Newidiadau
V1			
V1.2	Mai 2024	Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth	Newid tabl ymgynghoriad i ychwanegu ymgynghoreion. Newid y tabl Cymeradwyo i ychwanegu cymeradwywyr. Newid y tabl Framwaith Strategol i gywiro testun sydd ar goll dan bwynt 6.

## YMGYNGHORIAD

Fersiwn	Pwy	Dyddiad
V1.0	Prif Swyddog Llywodraethu	2022-2023
V1.0	Rheolwr Gwasanaethau Busnes TG	2022-2023
V1.0	Rheolwr Menter ac Adfywio	2022-2023
V1.0	Uwch-Reolwr Adnoddau Dynol	2022-2023
V1.0	Uwch-Reolwr Plant a'r Gweithlu	2022-2023

## YMGYNGHORIAD

Fersiwn	Pwy/Ble	Dyddiad
V1.0	Rheolwr Isadeiledd TG	2022-2023
V1.0	Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid	2022-2023
V1.0	Uwch-Reolwr Systemau Gwella Ysgolion	2022-2023
V1.0	Rheolwr Cefnogi a Rheoli	2022-2023
V1.0	Rheolwr y Tîm Perfformiad Busnes	2022-2023
V1.0	Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio	2022-2023
V1.0	Rheolwr Archwilio Mewnol	2022-2023
V1.0	Ymgynghorydd Gwybodaeth Busnes a Chydymffurfio	2022-2023
V1.0	Prif Swyddog Pridiannau Tir	2022-2023
V1.0	Prif Gyfrifydd	2022-2023
V1.0	Arweinydd Tîm Adnoddau Dynol	2022-2023
V1.0	Rheolwr Corfforaethol – Rhaglen Gyfalaf ac Asedau	2022-2023
V1.0	Cynghorydd	2022-2023
V1.0	Rheolwr Gwasanaeth i Gwsmeriaid a Chyfathrebu	2022-2023
V1.0	Swyddog Cyfathrebu	2022-2023
V1.0	Rheolwr Perthynas Busnes TG	2022-2023
V1.0	Swyddog Datblygu Technegol Arweiniol – Pensiynau a Chronfeydd	2022-2023

## CYMERADWYAETH

Fersiwn	Pwy/Ble	Dyddiad
V1.0	Rheolwr Gwasanaethau Busnes TG	2023
V1.0	Prif Swyddog Llywodraethu	2023

# Tabl Cynnwys

Cyflwyniad .....	5	Cyflawni'r Strategaeth.....	10
Cefnogi Ein Cyfrifoldebau a Strategaethau Eraill	6	Cynllunio Adnoddau i Gefnogi Darpariaeth	11
Y Weledigaeth .....	8	1. Fframwaith Strategol.....	12
Cydymffurfio â Deddfwriaeth a Rheoliadau	8	2. Technolegau a Systemau.....	13
Effeithlonrwydd a Gwerth am Arian .....	8	3. Ymwybyddiaeth a Sgiliau .....	14
Canlyniadau i Gwsmeriaid .....	8	4. Ffyrdd Newydd o Weithio .....	15
Os fyddwn yn gwneud hyn yn iayn edrych?	9	Llywodraethu.....	16

# Cyflwyniad

**Cydnabyddir fwyfwy bod gwybodaeth a data yn ased allweddol ym mhob sefydliad. Bydd trefn dda o ran rheoli gwybodaeth a data o gymorth i lywio arloesedd, ac mae gallu dangos bod gwybodaeth a data yn cael eu casglu, eu storio, eu defnyddio a'u rhannu'n gyfrifol yn allweddol i feithrin a chynnal ymddiriedaeth gyda chwsmeriaid ar draws Sir y Fflint.**

Mae datblygiadau technolegol yn rhoi cyfleoedd i ddefnyddio gwybodaeth a data i gyfuno a symleiddio gwasanaethau, eu gwneud yn fwy effeithlon, a gwella'r profiad i gwsmeriaid yn gyffredinol. Gall trefniadau da o ran rheoli gwybodaeth a data hefyd roi mewnwelediad i ni a'n helpu i allu cynnig gwasanaethau gwell sy'n fwy ymatebol ac wedi'u teilwra tuag at anghenion unigol y cwsmeriaid ar draws Sir y Fflint.

Mae Rheoli Gwybodaeth a Data yn thema allweddol yn Strategaeth Ddigidol Sir y Fflint. Mae'r blaenoriaethau a nodwyd yn y ddogfen honno'n canolbwyntio ar greu isadeiledd diogel, wedi'i danategu gan systemau a pholisïau clir a fyddai'n caniatáu i ni ddangos cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol.

Mae cynnydd da wedi'i wneud i ddechrau defnyddio ein gwybodaeth a systemau mewn ffordd sy'n darparu gwelliannau ymarferol ar gyfer ein cwsmeriaid. Mae'r rhain yn cynnwys gweithredu proses ymgeisio a thalu syml, cydlynol a chwbl ddigidol ar gyfer Talebau Gofal Plant; gwaith i gefnogi ein cwsmeriaid mwy diamddiffyn yn ystod yr argyfwng COVID, a chynnydd sylweddol i ddarparu un ffynhonnell safonol o ddata cyfeiriadau, sy'n tanategu ac yn hwyluso llawer o'n gwasanaethau.

Yn y strategaeth hon, rydym eisiau adeiladu ar y fframwaith hwnnw a gosod map ffordd sy'n cefnogi dull wedi'i arwain gan ddata at foderneiddio a gwella gwasanaethau'n barhaus.

Yn y bôn, rydym yn cydnabod bod y fframwaith deddfwriaethol y mae'n rhaid cadw a rheoli gwybodaeth a data ynddo, yn gymhleth ac amrywiol ar adegau. Ni ddylid ystyried hyn yn rhwystr i ddatblygiad gwasanaethau arloesol ac effeithlon, ond dylai hybu defnydd cyfrifol a chreadigol o ddata.

Ochr yn ochr â hyn, mae newid cynyddol o ran polisi a dull ar draws y sector cyhoeddus i gyfuno gwasanaethau a defnyddio data'n

arloesol i roi profiad gwell i gwsmeriaid o'r dechrau i'r diwedd. Ar yr un pryd, mae cwsmeriaid yn disgwyl gallu cael mynediad at wasanaethau a gwybodaeth ar-lein, ar unrhyw amser ac o unrhyw le. Bydd y Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Data hon ar gyfer 2021-2026 yn ffactor craidd o ran cyflawni hynny'n llwyddiannus.

Rydym yn cydnabod er i'r pandemig Covid 19 fod yn gyfnod heriol a thrychinebus i lawer, fe olygodd bod angen gwneud addasiad brys i ffyrdd o weithio ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Fe wnaeth hyn gyflymu newid i wasanaethau digidol ac fe sbardunodd yr arfer o rannu gwybodaeth a data rhwng partneriaid i lefelau digynsail, i sicrhau fod cefnogaeth yn gallu cael ei darparu i'r rhai a oedd mewn angen. Rydym yn awyddus i gynnal y momentwm a welwyd yn ystod y cyfnod hwn, gan ddysgu o'r cynnydd a wnaed ac adeiladu arno.

*Mae datblygiadau technolegol yn rhoi cyfleoedd i ddefnyddio gwybodaeth a data i gyfuno a symleiddio gwasanaethau, eu gwneud yn fwy effeithlon, a gwella'r profiad i gwsmeriaid yn gyffredinol*

# Cefnogi Ein Cyfrifoldebau Cyfreithiol a Strategaethau Eraill



Mae'n hanfodol bod y gwaith rydym yn ei wneud a'r gwelliannau rydym yn eu cynllunio yn cyd-fynd yn briodol â'r cyfeiriad strategol sydd wedi cael ei osod yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac nad yw'r fframwaith deddfwriaethol yn cyfyngu ar arloesi, ond yn hytrach yn ychwanegu haen o amddiffyniad i sicrhau bod gwybodaeth a data'n cael eu defnyddio'n gyfrifol a theg.

Mae fframwaith deddfwriaethol statudol cymhleth sydd wedi cael ei ddatblygu dros nifer o flynyddoedd, ac mae'n cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

- Deddfwriaeth Diogelu Data.
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.
- Rheoliadau Ail-ddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2015.
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2016.
- Deddf yr Economi Ddigidol 2017.

Byddwn yn gweithio yn ôl y deddfwriaethau i sicrhau fod gennym reolyddion a fframwaith diogelwch priodol mewn lle i gadw a rheoli gwybodaeth a data'n ddiogel.

Byddwn hefyd yn nodi ac yn ystyried cysylltiadau â darnau allweddol eraill o ddeddfwriaeth, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dyma'r darn cyntaf o ddeddfwriaeth yn y byd i ddatgan cyfrifoldeb ar y genhedlaeth bresennol i wneud penderfyniadau mewn ffordd gynaliadwy sy'n ceisio sicrhau twf ac ansawdd bywyd i genedlaethau'r dyfodol. Bydd ei Saith Nod Lles (Ffigur 1 isod) yn dylanwadu ar ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol, gyda chamau gweithredu o fewn y strategaeth hon yn cefnogi gwelliant parhaus y gwasanaethau yn ysbryd y Ddeddf.



# Cefnogi Ein Cyfrifoldebau Cyfreithiol a Strategaethau Eraill


Rydym hefyd yn awyddus i gysylltu â'r corff cynyddol o arferion da sy'n datblygu ar draws sector cyhoeddus Cymru a thu hwnt, gan ddsygu o'u profiadau.

Rydym eisiau cysylltu ag eraill a defnyddio eu profiad, gan sicrhau bod ein dull yn cyd-fynd â'r Strategaeth Ddigidol i Gymru gan Lywodraeth Cymru (Ffigur 2 isod).

Mae'r weledigaeth drosfwaol ar gyfer y strategaeth honno yn canolbwyntio ar yr effaith y gall buddsoddi mewn technolegau digidol ei gael o ran ansawdd bywyd a thwf economaidd, nid ar ddarpariaeth TG a thechnoleg.

Mae chwe chenhadaeth allweddol wedi cael eu dylunio i gefnogi datblygiad a darpariaeth strwythur galluogol i sicrhau gweithrediad effeithiol, ac ystod o amcanion ymarferol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chefnogi'r holl gwsmeriaid yng Nghymru i fynd ar-lein yn hyderus a chael mynediad at wasanaethau cyhoeddus cydlynol o safon. Cenhadaeth 6, Mae "Data a Chydweithredu", yn anelu i gefnogi gwelliant gwasanaeth drwy gydweithio, gyda data a gwybodaeth yn cael eu defnyddio a'u rhannu. Mae'r ffocws ar effaith a chanlyniadau sy'n ddull sylfaenol rydym eisiau ei efelychu wrth i

ni roi'r strategaeth hon ar waith. Wrth i ni adolygu a gwerthuso llwyddiant ein Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Data yn y cyfnod 2021-2026, bydd yn cael ei barnu a'i gwerthuso yn seiliedig ar yr effaith mae'n ei chael a'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni.



# Y Weledigaeth

Rydym eisiau newid canfyddiad a rôl gwybodaeth a data ar draws y sefydliad, gan eu cydnabod fel adnodd corfforaethol allweddol ac ased sy'n gallu ein cefnogi wrth wella gwasanaethau a chanlyniadau ar gyfer ein cwsmeriaid a'n gweithwyr. Mae'n rhaid i ni sicrhau nad ydynt yn cael eu hystyried yn adnodd TG, a bod ganddynt berchnogaeth ehangach, wrth gydweithio gyda'n partneriaid byddwn yn gallu cyflawni'r canlyniadau canlynol:

## Cydymffurfio â Deddfwriaeth a Rheoliadau

- Rydym yn hyderus bod ein gwybodaeth a data yn cael eu cadw'n ddiogel, gyda gweithdrefnau cadw a gwaredu cadarn ar waith ar gyfer cofnodion ffisegol a digidol.
- Gallwn ddangos bod gennym fframwaith clir ar gyfer ail-ddefnyddio a rhannu gwybodaeth a data rhwng ein gwasanaethau a gyda'n partneriaid, sy'n cael ei gyfathrebu'n briodol i gwsmeriaid.
- Mae gennym adnoddau a systemau mewn lle i'n galluogi ni i ymateb yn effeithiol i geisiadau hawl i wybodaeth.
- Rydym yn cynnal safonau uchel, gydag achrediad yn dystiolaeth o gadernid ein dull.

## Effeithlonrwydd a Gwerth am Arian

- Rydym yn gwneud cynnydd o ran cael gwared ar ddyblygu ymdrechion ac osgoi ailgyflwyno data a lleihau'r baich cysylltiedig o storio a rheoli.
- Rydym yn gwneud cynnydd o ran cyfuno gwasanaethau a rhannu ac ail-ddefnyddio gwybodaeth a data'n briodol, yn fewnol a gyda'n partneriaid, er budd ein cwsmeriaid.

## Canlyniadau i Gwsmeriaid

- Mae ein gwasanaethau'n hygyrch yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- A yw'n hawdd iddynt ganfod gwybodaeth amdany'n nhw eu hunain neu'r Cyngor pan fo angen?
- Gall fwyfwy o gwsmeriaid ddefnyddio adnodd hunan-wasanaeth yn ddigidol.
- Mae ein gwasanaethau'n cydweithio'n ddoeth i rannu ac ail-ddefnyddio gwybodaeth a data'n briodol i gyflawni canlyniadau gwell i gwsmeriaid.

*“Mae'n adnodd corfforaethol allweddol ac yn ased sy'n gallu ein cefnogi ni i wella gwasanaethau a chanlyniadau cwsmeriaid a gweithwyr.”*





# Os fyddwn yn gwneud hyn yn iawn, sut fydd yn edrych?

Pan mae gwybodaeth a data'n cael eu rheoli'n dda ac yn cael eu cydnabod fel ased corfforaethol allweddol, gallant ddarparu ystod o fuddion i gwsmeriaid, gweithwyr a'r Cyngor a'i bartneriaid yn ehangach:

*“Bydd data a gwybodaeth yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel.”*

## Cwsmeriaid

- Mae gwybodaeth a data yn gywir, dibynadwy a hygyrch.
- Pan mae angen cymorth gan y Cyngor, mae'r wybodaeth sydd ei hangen yn hawdd i'w chanfod.
- Mae gwasanaethau a chefnogaeth yn fwyfwy hygyrch yn ddigidol ar adeg sy'n gyfleus i'r cwsmer.
- Pan geisir gwasanaethau neu gefnogaeth, mae'r ymateb yn brydlon ac yn effeithiol ac mae gwasanaethau'n gweithio'n dda gyda'i gilydd.
- Bydd hyder cynyddol bod gwybodaeth cwsmeriaid yn ddiogel ac yn cael ei defnyddio'n briodol.
- Bydd penderfyniadau sy'n effeithio ar gwsmeriaid yn dryloyw gyda chynnydd mewn atebolrwydd.

## Gweithwyr

- Mae'r wybodaeth sydd ar weithwyr ei hangen i wneud eu gwaith yn effeithiol yn gwbl hygyrch.
- Bydd gwell mynediad i'r data yn cefnogi penderfyniadau gwell a chanlyniadau gwell ar gyfer ein cwsmeriaid.
- Bydd gwasanaethau'n gweithio'n fwy effeithiol a hyderus mewn cydweithrediad â phartneriaid a gwasanaethau eraill.
- Mae gwybodaeth a data'n cael eu hail-ddefnyddio a'u rhannu'n fwy effeithiol, mae llai o ddyblygu, ac mae gwasanaethau'n fwy effeithlon.
- Mae dealltwriaeth glir o'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud â chasglu, storio, rhannu, gwaredu a chadw data.
- Bydd mwy o hyder o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau cyfreithiol.

## Gwasanaethau'r Cyngor

- Bydd yn ymatebol i ddisgwyliadau newidiol y cwsmer o ran mynediad i wasanaethau'n ddigidol.
- Bydd data a gwybodaeth yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel.
- Bydd unrhyw achosion o ddyblygu yn cael eu nodi a'u lleihau i gynyddu gwerth am arian.
- Gallwn ddangos bod gwybodaeth a data'n cael eu cadw'n ddiogel a'u defnyddio'n gyfrifol, yn unol â'r gyfraith.
- Rydym yn fwyfwy tryloyw o ran y ffordd rydym yn dylunio ac yn rhedeg gwasanaethau ac yn gadael i'n hunain gael ein dal i gyfrif.
- Bydd gwybodaeth gywir, gyfredol sy'n cydymffurfio yn cefnogi'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud ynglŷn â blaenoriaethau, polisiau a dyluniad a darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol.
- Rydym yn diogelu ac yn cadw gwybodaeth a data er budd cenedlaethau'r dyfodol.
- Gallwn weithio'n fwy effeithiol gyda'n partneriaid i ddarparu dull mwy cydlynol i ddarparu canlyniadau gwell ar gyfer ein cwsmeriaid.


# Cyflawni'r Strategaeth


Mae'r Strategaeth yn fwiadol uchelgeisiol, ac rydym yn cydnabod y bydd gweithgareddau cysylltiedig yn cymryd amser, rydym felly wedi gosod map ffordd realistig a chynyddol ar gyfer newid. Bydd cyflymder cynlluniedig y ddarpariaeth yn cyd-fynd â'r capasiti sydd ar gael o fewn y sefydliad i gefnogi'r gwaith hwn, bydd hefyd yn cydnabod yr angen i gefnogi gweithwyr wrth symud tuag at y cydsyniad o wybodaeth fel ased corfforaethol a arweinir gan y cwsmer.

Pan fyddwn yn datblygu ac yn darparu gweithgareddau yn rhan o'r Strategaeth hon, byddwn yn mabwysiadu'r egwyddorion canlynol:

- Cefnogi arloesedd.
- Casglu unwaith, defnyddio sawl tro.
- Preifatrwydd drwy ddyluniad.
- Bod yn dryloyw a theg.
- Bod yn saff a diogel.
- Cydweithio lle bo'n bosibl.

*“Rydym ni'n cydnabod y bydd gweithgareddau cysylltiedig yn cymryd amser ac felly rydym ni wedi gosod map ffordd realistig a chynyddol ar gyfer newid.”*





*“Rydym ni wedi datblygu cynllun gweithredu manwl i gyd-fynd â'r Strategaeth sy'n seiliedig ar 4 ffrwd waith.”*

## Cynllunio Adnoddau i Gefnogi Darpariaeth

Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu manwl i gyd-fynd â'r Strategaeth sy'n seiliedig ar 4 ffrwd waith.

1. Fframwaith Strategol.
2. Technolegau a Systemau.
3. Ymwybyddiaeth a Sgiliau.
4. Ffyrdd Newydd o Weithio.

Ym mhob ffrwd waith bydd gweithgareddau yn amrywio o'r rhai hynny sy'n gymharol gyflym a hawdd i'w cyflawni i'r rhai hynny sydd, ar hyn o bryd, yn uchelgeisiol ond na fyddem eisiau colli golwg ohonynt. Hefyd, bydd gweithgareddau a fydd yn cael eu cynnal drwy gydol oes y Strategaeth, yn enwedig o ran cydymffurfiaeth, sy'n adlewyrchu gweithgaredd busnes fel arfer, ond sydd

angen eu cydnabod fel sylfeini hanfodol ar gyfer Rheoli Gwybodaeth a Data'n effeithiol.

Cydnabyddir darpariaeth y strategaeth hon fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer y sefydliad, ond mae arnom angen darparu ar gyfer ei chyflawni o fewn ein hadnoddau cyfyngedig, a chyd-fynd ag ystod o flaenoriaethau paralel a chystadleuol. Yn unol â hyn, bydd amserlenni penodol ar gyfer amcanion sydd wedi'u diffinio yn y cynllun gweithredu yn cael eu rheoli drwy'r broses cynllunio busnes. Bydd angen gwneud penderfyniadau am flaenoriaethau tymor byr, gan gydnabod y bydd rhai elfennau o'r cynllun gweithredu yn ymestyn tu hwnt i gyfnod y strategaeth (2021-2026).

# 1. Fframwaith Strategol

## Egwyddorion:

- Deall rolau a chyfrifoldebau corfforaethol sy'n ymwneud â Rheoli Gwybodaeth a Data yn glir.
- Deall y wybodaeth a'r data rydym yn eu cadw a'u gwerth i'r sefydliad.
- Darparu sicrwydd bod diogelwch gwybodaeth yn cael ei reoli'n effeithio.
- Gweithredu'n effeithiol ac yn dryloyw o fewn y fframweithiau cyfreithiol priodol.
- Sicrhau bod ein gwybodaeth a data ar gael ble a phryd mae eu hangen.
- Sicrhau bod ein gwybodaeth a data'n safonol er mwyn hwyluso rhannu ac ail-ddefnyddio.

Rhif	Cam Gweithredu
1	Adnabod gweithwyr perthnasol ar draws y sefydliad sy'n ymgymryd â rôl rheoli gwybodaeth a diffinio eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir.
2	Meddu ar ddealltwriaeth dda o beth yw ein Hasedau Gwybodaeth a Data, ble maent yn cael eu cadw a phwy sy'n gyfrifol amdanynt.
3	Deall sut a ble mae data yn cael ei gasglu ar hyn o bryd ar draws gwasanaethau'r Cyngor; yn cynnwys ble mae data'n cael ei ddyblygu a ble mae bylchau.
4	Cwblhau a chadw achrediadau diogelwch gofynnol a pherthnasol a fydd yn rhoi sicrwydd i Aelodau Etholedig a chwsmeriaid Sir y Fflint bod dulliau arfer da yn tanategu Rheoli Gwybodaeth a Data corfforaethol.
5	Sicrhau bod y Cyngor yn bodloni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â Deddfwriaethau Rheoli Gwybodaeth perthnasol (e.e. GDPR, FOI, EIR ac ati).
6	Sicrhau bod gan y Cyngor gyfres lawn o bolisiau a gweithdrefnau Rheoli Gwybodaeth a Data wedi'u cymeradwyo a'u cyhoeddi, sy'n bodloni gofynion deddfwriaethol a strategol.
7	Egluro'r fframwaith ar gyfer rhannu gwybodaeth a data ar draws y sefydliad a'i bartneriaid, i gefnogi gweithwyr a gwneud iddynt deimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio gwybodaeth yn rhagweithiol ac yn briodol i wella gwasanaethau a chanlyniadau i gwsmeriaid.
8	Parhau i ddatblygu dull y Cyngor o ran safoni data cyfeiriadau i allu gweld gwybodaeth eiddo mewn un lle.
9	Datblygu dull y Cyngor o ran safoni data cwsmeriaid i allu gweld gwybodaeth cwsmeriaid mewn un lle.
10	Gwell dealltwriaeth o lif gwybodaeth a data ar draws y sefydliad er mwyn i ni allu adnabod achosion o ddyblygu a rhannu ac ail-ddefnyddio gwybodaeth a data'n effeithiol.

*“Byddwn yn trin gwybodaeth a data fel ased corfforaethol allweddol i gefnogi gwneud penderfyniadau gwell a'r defnydd gorau o adnoddau.”*

## 2. Technolegau a Systemau

### Egwyddorion:

- Byddwn yn croesawu technolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.
- Sicrhau bod ein systemau a'n gwasanaethau'n ddiogel yn ôl dyluniad.
- Sicrhau bod ein systemau a'n gwybodaeth yn hygyrch.
- Byddwn yn dylunio ffyrdd saff, diogel a defnyddiol o rannu gwybodaeth.
- Datblygu a chyflawni datrysiadau sy'n bodloni safonau y cytunwyd arnynt.

*“Byddwn yn darparu gwasanaeth gwell, di-dor gyda gwell deilliannau oherwydd bod gwybodaeth a data'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn arloesol.”*

Rhif	Cam Gweithredu
1	Adolygu safonau datblygu system yn fewnol i sicrhau bod gwelliannau yn cefnogi rheoli gwybodaeth a data yn well yn y dyfodol, yn cynnwys safonau agored sy'n hwyluso rhannu gwybodaeth a data rhwng systemau, ar draws gwasanaethau a gyda'n partneriaid.
2	Gweithio gyda'n cyflenwyr i sicrhau bod eu systemau'n cefnogi ein gweledigaeth ac yn bodloni ein safonau gofynnol i alluogi galluedd rhannu gwybodaeth ac integreiddio diogel, cydymffuriol ac effeithiol.
3	Parhau i ddatblygu systemau sy'n cefnogi dull safonol a 'mewn un lle' ar gyfer ein data sy'n seiliedig eiddo a data sy'n seiliedig ar bobl.
4	Egluro sut mae'r sefydliad yn bwriadu rheoli isadeiledd hybrid ar y cwmwl ac ar y safle, o safbwynt rheoli gwybodaeth a data.
5	Sicrhau ein bod yn dilyn egwyddorion rheoli cofnodion cadarn o ran ein cofnodion gwybodaeth digidol a ffisegol, ac yn gwneud hynny o'u creu hyd at eu gwaredu.
6	Gweithredu technolegau i gefnogi rheoli ac adrodd ar wybodaeth a data digidol (e.e., MS SharePoint, MS Power BI) yn effeithiol.

# 3. Ymwybyddiaeth a Sgiliau

## Egwyddorion:

Bydd pob gweithiwr wedi'i hyfforddi'n briodol yn y meysydd canlynol:

- Seiberddiogelwch.
- Cydymffurfiaeth Gwybodaeth.
- Hyfforddiant ar systemau sy'n benodol i'w rolau.
- Bydd gan weithwyr ddealltwriaeth glir o ba mor hir y dylem gadw gwybodaeth a data, a sut y dylem gael gwared arnynt neu eu cadw pan nad oes ganddynt ddefnydd busnes mwyach.
- Bydd gweithwyr yn hyderus wrth rannu gwybodaeth yn briodol gyda phartneriaid a gwasanaethau eraill.

*“Bydd gan bobl a sefydliadau hyder llwyr y bydd eu gwybodaeth a'u data'n cael eu trin yn gyfrifol, yn ddiogel ac yn foesegol, yn unol â'r ddeddfwriaeth Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion briodol a gan ddilyn arfer gorau'r diwydiant perthnasol i Reoli Gwybodaeth a Diogelwch.”*

Rhif	Cam Gweithredu
1	Parhau'r sgwrs â gweithwyr allweddol ar draws y sefydliad yn glŷn â gwybodaeth a data yn gweithredu fel galluogwr allweddol o ran darpariaeth gwasanaeth effeithiol. Cefnogi hyn â hyfforddiant Diogelu Data a seiberddiogelwch gorfodol i bob gweithiwr, wedi'i addasu yn ôl manylder a chymhlethdod eu rôl.
2	Cynyddu ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad am drefn y broses archifo a chadw ar gyfer cofnodion ffisegol a chofnodion digidol.
3	Gwella ein gallu i ddarparu cyngor a chefnogaeth ymarferol i reolwyr ar draws y sefydliad er mwyn eu hannog i fod yn hyderus wrth ddefnyddio data i wella ansawdd ac effaith y gwasanaethau maent yn eu darparu.
4	Parhau i weithio gyda phartneriaid i gynnal dull rhagweithiol a'r arfer orau o ran diogelu ein gwybodaeth a'n data.


## 4. Ffyrdd Newydd o Weithio

### Egwyddorion:

- Bod yn agored i wrando ar eraill a dysgu o'u profiadau.
- Gweithredu o fewn diwylliant sy'n annog arloesedd ac yn dathlu llwyddiant.
- Ail-ddylunio gwasanaethau o amgylch canlyniadau ac nid strwythurau presennol a seilos gwybodaeth.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu gwasanaethau 'o'r dechrau i'r diwedd' sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.
- Byddwn yn mabwysiadu egwyddorion 'Dywedwch Wrthym Unwaith' i gyfyngu ar sawl gwaith y bydd angen i gwsmeriaid roi'r un wybodaeth i ni.

Rhif	Cam Gweithredu
1	Adeiladu ar y profiad a'r momentwm a gafwyd yn ystod y pandemig Covid, gyda'r bartneriaeth Profi, Orlhain a Diogelu a'r profiad o adnabod a chefnogi cwsmeriaid a oedd yn gwarchod eu hunain i nodi cyfleoedd ar gyfer ymestyn a / neu ailadrodd.
2	Cysylltu â phrosiect rhanbarthol Gogledd Cymru i adolygu dulliau archifo a chadw digidol; ac adolygu a diffinio prosesau ar gyfer archifo cofnodion ffisegol a digidol. Bydd hyn yn adolygu sut y caiff mathau newydd o gyfryngau eu cynnwys yn y prosesau a gweithdrefnau archifo i sicrhau bod data a gedwir yn y dyfodol yn parhau i fod yn adlewyrchiad cywir a chyfoethog o gymdeithas yn ein hoes.
3	Creu gwasanaeth 'Dywedwch Wrthym Unwaith' i rannu gwybodaeth gyda gwasanaethau a phartneriaid lle gallwn a lle mae o fudd i'n cwsmeriaid i wneud hynny.
4	Gweithio gyda phartneriaid i rannu ein gwybodaeth a data fel modd o ddatblygu dull mwy cydlynol o ddarparu gwasanaeth. Wrth wneud hyn byddwn yn rhannu profiadau ar draws y Cyngor ac yn sicrhau ein bod yn dysgu ohonynt mewn datblygiadau pellach.

*"Gallwn wella'r gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid drwy weithio gyda'n gilydd a sicrhau y defnyddir ein gwybodaeth a'n data'n effeithiol, mewn ffordd drefnus a diogel a'u bod yn cyrraedd y sawl sydd eu hangen."*



*“Mae Rheoli Gwybodaeth a Data yn ffrwd waith allweddol yn Strategaeth Ddigidol y Cyngor.”*

# Llywodraethu

Mae Rheoli Gwybodaeth a Data yn ffrwd waith allweddol yn Strategaeth Ddigidol y Cyngor ac felly bydd gofyniad i adrodd ar y cynnydd yn erbyn darpariaeth y Strategaeth hon i'r Bwrdd Strategaeth Digidol.

## Bydd y Bwrdd Strategaeth Digidol yn gyfrifol am:

- Gymeradwyo a blaenoriaethu unrhyw geisiadau am adnoddau i gyflawni camau gweithredu sy'n cefnogi darpariaeth y Strategaeth hon yn dilyn cyflwyniad achos busnes.
- Bydd y Bwrdd Strategaeth Digidol yn defnyddio cyfres o feini prawf diffiniedig i asesu a blaenoriaethu achosion busnes, gan sicrhau eu bod wedi'u halinio a blaenoriaethau ac uchelgeisiau Strategaeth Ddigidol y Cyngor.

## Mae'r Bwrdd Rheoli Gwybodaeth a Data yn gyfrifol am:

- Oruchwylio a sicrhau bod y Strategaeth hon yn cael ei darparu'n effeithiol.
- Adrodd ar gynnydd i'r Bwrdd Strategaeth Digidol.
- Monitro ac adrodd ar gydymffurfiaeth yn erbyn targedau perfformiad corfforaethol cysylltiedig.
- Nodi a rheoli materion a risgiau cysylltiedig, gan eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd Strategaeth Digidol pan fo angen.
- Adolygiad parhaus o'r Strategaeth i sicrhau ei bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu gofynion newidiol y Cyngor a'i gwsmeriaid.

## Cyflawni

- Mae'r Bwrdd wedi'i lunio o gynrychiolwyr o bob maes o'r sefydliad.
- Bydd aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am hyrwyddo nodau, amcanion a chynnydd y Strategaeth o fewn eu meysydd gwasanaeth eu hunain.
- Bydd aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw weithgaredd cysylltiedig o fewn eu meysydd gwasanaeth eu hunain yn cael eu cyflawni.